

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
Dyddiad / Date:	7 Tachwedd 2019
Pwnc / Subject:	Arweiniad drafft cadw dysgwyr yn ddiogel

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r diwygiad hwn o *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* a'r cyngor clir a chynhwysfawr y mae'n ei gynnwys.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'n glir y cyfrifoldebau ar gyfer ysgolion a cholegau sy'n deillio o *Ddeddf Addysg 2002*, ac yn darparu canllawiau priodol ar gyfer ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith, am eu dyletswyddau a sut i weithredu er mwyn amddiffyn unrhyw blentyn mewn perygl. Fodd bynnag, nid yw gwerth y canllawiau i weithwyr proffesiynol eraill ym myd addysg, fel staff mewn gwasanaethau ieuencid awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, darpariaeth feithrin nas cynhelir, a gweithwyr cyfiawnder ieuencid, wedi ei ddatgan yn glir. Er bod y ddarpariaeth olaf yn disgyn y tu allan i'r hyn a gwmpesir gan *Ddeddf Addysg 2002*, mae'r canllawiau'n berthnasol o hyd i staff yn y sectorau hyn.

Mae mabwysiadu'r awgrymiadau 'rhaid', 'dylid/dylai' ac 'arfer effeithiol' yn ddefnyddiol iawn ac fe'u defnyddir yn dda i nodi'r modd y mae canllawiau yn effeithio ar y gwahanol gynulleidfaoedd.

Mae graddau'r diwygio yn y fersiwn hon o *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* yn nodi angen i sicrhau bod yr holl staff addysg yn gallu elwa ar gyfundrefn hyfforddi briodol a chyfoes. Mae angen i'r hyfforddiant hwn eu helpu i ddeall y materion allweddol sy'n deillio o'r canllawiau hyn ac sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu dyletswyddau proffesiynol. Mae'r ymgynghoriad presennol ar ganllawiau'n ymwneud â *Diogelu plant rhag achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt* hefyd yn cynnwys canllawiau penodol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol. Bydd hyfforddiant ychwanegol â ffocws yn ofynnol ar gyfer y manylder yn y canllawiau hyn a'r ffocws ar gyfrifoldebau gweithwyr addysg proffesiynol hefyd. Mae cyfle i gysoni hyfforddiant yn ymwneud â *Diogelu plant rhag achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt* a *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*.

Mae Estyn yn croesawu datblygu *Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan* mewn perthynas â phlant mewn amgylchiadau diogelu penodol sy'n cynnwys *Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan* ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt, a fydd yn helpu gweithwyr addysg proffesiynol ochr yn ochr â gwasanaethau eraill wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd y canllawiau diwygiedig *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* yn helpu Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol i sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar ei hawliau i:

- Gael ei drin â thegwch, parch ac urddas
- Cael cyfiawnder
- Bod yn rhydd oddi wrth bob math o drais, niwed a thriniaeth ddiraddiol.

Bydd y canllawiau hyn yn cyfrannu'n benodol at Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r rhain yn amlinellu cyfrifoldebau'r llywodraeth i amddiffyn plant rhag pob math o drais, a heb berygl:

“Mae’n datgan y dylai Partïon gymryd yr holl gamau deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol priodol i amddiffyn y plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, anaf neu gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camarfer neu gamfanteisio, gan gynnwys camdriniaeth rywiol, tra byddant yng ngofal rhiant/rhieni, gwarcheidwad/gwarcheidwaid cyfreithiol neu unrhyw un arall sydd â gofal am y plentyn.

Dylai camau amddiffynnol o’r fath, fel y bo’n briodol, gynnwys gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sefydlu rhaglenni cymdeithasol i ddarparu cymorth angenrheidiol ar gyfer y plentyn ac ar gyfer y rheiny sydd â gofal am y plentyn, yn ogystal â mathau eraill o atal, ac ar gyfer nodi, adrodd, cyfeirio, ymchwilio, trin a mynd i’r afael ag achosion o gam-drin plant a ddisgrifiwyd cyn hyn, ac am ymglymiad barnwrol, fel y bo’n briodol”¹.

Bydd y canllawiau hyn yn cryfhau cyfraniad gweithwyr addysg proffesiynol i sicrhau dull cenedlaethol cyfannol sy’n amddiffyn plant a’r holl ddysgwyr eraill rhag bygythiad o drais, niwed, camfanteisio a chamdriniaeth².

Cwestiynau’r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – A ydych chi’n cytuno bod y diwygiadau drafft a wnaed i’r canllawiau diweddaraf ynghylch Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn briodol ac yn effeithiol? Os na, pa ddiwygiadau pellach sydd eu hangen, yn eich barn chi?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Estyn yn cytuno bod y diwygiadau drafft i *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* yn briodol ac yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio’r canllawiau yn well ar ddarpariaeth addysg, ac yn amlinellu’n gliriach y dyletswyddau ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yng nghyd-destun eu hamgylcheddau gweithio.

Er bod y canllawiau yn deillio o ddyletswyddau o dan adran 175 Deddf Addysg 2002, mae’r egwyddorion, y canllawiau manwl a’r esboniad am ddyletswyddau yn ddefnyddiol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol sy’n gweithio mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y ddeddf honno, er enghraifft yr awdurdod lleol a darparwyr gwasanaethau ieuencid yn y sector gwirfoddol, a darparwyr meithrin nas cynhelir. Gellir nodi perthnasedd y canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* ar gyfer y gwasanaethau hyn yn fwy eglur ar ddechrau’r ddogfen.

O dan yr adran sy’n diffinio diogelu (P2), mae’r frawddeg agoriadol, *“Diogelu yw amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac*

¹ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (1989)

² Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (2011) *Sylw Cyffredinol Rhif 13: Hawl y plentyn i ryddid rhag pob math o drais*. [pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/docs/CRC.C.GC.13_en.pdf Darllenwyd ar: 23/09/2019

addysgu'r rheiny o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon", yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r mater. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol ehangu mwy ar yr hyn y mae 'niwed' yn ei olygu yn y cyd-destun hwn, gan fod hyn yn mynd y tu hwnt i ddiffiniadau syml o amddiffyn plant.

Yn gyffredinol, mae diogelu mewn addysg yn cwmpasu ystod eang iawn o ffynonellau niwed ac yn cwmpasu materion fel:

- dyletswydd gofal wedi'i rheoli'n amhriodol gan staff ysgol lle na chaiff lleoliad a lles disgyblion eu monitro'n rhagweithiol pan fydd y bobl ifanc hyn yn cael eu haddysgu oddi ar y safle neu'n cael eu hanfon adre o'r ysgol yn gynnar
- amgylcheddau addysgu a dysgu sy'n cael eu cynnal yn wael
- rheoli ymddygiad sy'n cael ei gymhwyso'n wael
- staff addysg yn 'bwlio' plant yn emosiynol ac yn gorfforol
- bwlio ymhlith cyfoedion rhwng plant, gan gynnwys ymosodiadau corfforol a chamdriniaeth emosiynol
- cymhwysir dyletswydd gofal y darparwr yn wael ar ôl damweiniau ac anafiadau ar y safle.

Er nad yw'n effeithiol rhestru materion o'r fath yn hollgynhwysfawr, byddai, fodd bynnag yn ddefnyddiol cynnwys rhyw fath o syniad am ehangder y materion yr ystyrir eu bod o fewn cwmpas diogelu mewn addysg.

Ym mharagraff 3.38, mae'r testun yn nodi "*Gallai plant ag angen dysgu ychwanegol fod mewn risg gynyddol o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso o gymharu â'u cyfoedion*". A yw'r defnydd hwn o'r ymadrodd "anghenion dysgu ychwanegol" yn gyson â'r diffiniadau a eglurwyd yn ddiweddar o anghenion dysgu ychwanegol, ac "anghenion addysgol arbennig" fel y'u gwelir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018? Mae'n bwysig fod y gwahaniaeth rhwng ADY ac AAA yn cael ei gydnabod, a'r gwahaniaethau dilynol mewn risgiau yn cael eu hystyried.

Mae'r ffordd y defnyddir yr ymadroddion 'amddiffyn plant' a 'diogelu' yn ddryslyd mewn rhannau o'r ddogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Nid yw'n glir a yw'r ymadroddion hyn ar wahân ac yn cyfeirio at bethau ar wahân (fel yr awgrymir yn niffiniad Cadw Dysgwyr yn Ddiogel o 'diogelu', lle nodir Amddiffyn Plant fel is-set) neu, os ydynt mewn amgylchiadau penodol, yn golygu'r un peth ac yn cael eu defnyddio yn gyfnewidiol. Er enghraifft, o'u darllen gyda'i gilydd, mae'n ymddangos bod paragraffau 4.1-4.3 yn awgrymu y dylai darparwr gael polisiau ar wahân ar amddiffyn a diogelu plant. Fodd bynnag, mewn manau eraill yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn Atodiad 1, polisi diogelu yw'r polisi enghreifftiol. Mae hyn yn awgrymu bod anghysondebau yn nhestun Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ynglŷn â'r ddau derm hyn. Dylid datrys yr anghysondebau hyn, gan gynnwys diogelu fel y term cyffredinol, os oes modd, a defnyddio Amddiffyn Plant yn benodol ar gyfer y categorïau hynny o gamdriniaeth sy'n effeithio ar blentyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol fel y diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cwestiwn 2 – A ydych chi'n cytuno â'r rôl a'r cyfrifoldebau a amlinellir yng nghanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gyfer yr Uwch Unigolyn Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant a swyddog arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu? Os na, pa ddiwygiadau pellach sydd eu hangen, yn eich barn chi?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r canllawiau ar gyfer rôl yr Uwch Unigolyn Dynodedig yn glir a chynhwysfawr. Mae'n amlinellu'n dda beth yw'r gofynion ar y darparwr a'r swyddog unigol sy'n ymgymryd â'r rôl honno. Yn benodol, mae'n egluro'n fuddiol lefel yr hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer yr unigolyn hwn, yn ogystal â lefel yr awdurdod sydd ei hangen ar yr unigolyn er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o fewn y ddarpariaeth.

Cwestiwn 3 – A yw'r offeryn archwilio diogelu yn darparu'r lefel gywir o gymorth ar gyfer ysgolion, yn eich barn chi?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r offeryn archwilio yn gynhwysfawr ac wedi'i gynllunio'n ddefnyddiol i weithredu ar 'sail proses' yn hytrach na fel rhestr wirio syml yn seiliedig ar gydymffurfio. Fodd bynnag, gallai'r offeryn fod yn rhy fanwl i'w ddefnyddio'n hawdd fel rhan o broses archwilio. Yn yr achosion hynny, mae hyn yn debygol o symud y broses oddi wrth werthuso defnyddiol ac ymarferol ac i gwblhau mwy arwynebol.

Nid yw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn cyfeirio at offer archwilio diogelu eraill, sy'n golygu efallai nad yw darparwyr yn gwybod amdany'n nhw, neu eu gallu i gyfrannu at ddarpariaeth a monitro cadarn. Y ddau offeryn allweddol yma yw pecyn hunanasesu Parch a Dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â radicaleiddio ac eithafiaeth, ac offeryn archwilio Hwb 360 ar gyfer diogelwch ar-lein.

Cwestiwn 4 – Wrth gyhoeddi'r canllawiau terfynol ynghylch Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd rhaglen weithredu yn dechrau. Pa weithgaredd gweithredu (hyfforddiant a/neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) fydd yn angenrheidiol, yn eich barn chi?

Sylwadau ategol

Dylai hyrwyddo'r ddogfen ddiwygiedig Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a'r canllawiau y mae'n eu cynnwys ganolbwyntio i ddechrau ar bawb mewn swyddi rheoli a diogelu o fewn darpariaeth addysg.

Gallai fod angen hyfforddiant penodol ar gyfer darparwyr darpariaeth feithrin nas cynhelir. Gallai hyn fod ar gael trwy drefniadau cymorth awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth feithrin nas cynhelir. Mae hyn hefyd yn gyfle i gynnwys hyn yn y canllawiau hyfforddiant hyn, sy'n

dangos sut mae Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC ar gyfer y sector hwn yn cyd-fynd â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Mae'r ymgynghoriad presennol ar ganllawiau yn ymwneud â *Diogelu plant rhag achosion o gamfanteisio'n rhywiol arnynt* hefyd yn cynnwys canllawiau penodol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol. Bydd angen hyfforddiant â ffocws ychwanegol hefyd ar y manylion yn y canllawiau hyn a'r ffocws ar gyfrifoldebau gweithwyr addysg proffesiynol. Mae cyfle i gydamseru hyn mewn modd defnyddiol.

Cwestiwn 5 – Hoffem gael gwybod eich safbwyntiau ar yr effeithiau a gaiff y canllawiau ynghylch Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Nid yw Estyn yn rhagweld y bydd y cynigion yn cael unrhyw effaith niweidiol na negyddol ar y Gymraeg.

Mae'r canllawiau yn nodi'n briodol yn adran 3.33: 'Dylai pawb sy'n gweithio mewn ysgol neu goleg sicrhau bod egwyddor cynnig rhagweithiol defnyddio'r Gymraeg yn cael ei hymgorffori yn ymarferol.' Mae hyn yn ddefnyddiol.

Cwestiwn 6 – Esboniwch hefyd sut ydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfer pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad yw'n cael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Gweler sylw ar gyfer cwestiwn 5.

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:

Sylwadau ategol

Sylwer, nid yw'r holl hyperddolenni wedi eu dyfynnu yng ngwaith testun dogfen y canllawiau; mae angen ailgynllunio'r rhain.

Dim sylwadau pellach.